Hawdd ei Ddeall

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Cymru iachach – cynllun ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol

## Adroddiad blynyddol - beth rydyn ni wedi ei gyflawni yn 2024 i 2025

Rhagfyr 2025

# Sut i ddefnyddio’r adroddiad yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cynllun Cyflawni’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Adroddiad blynyddol 2024 i 2025.**




Efallai y byddwch chi angen help i’w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** gofalcymdeithasol.cymru

**Ebost:** ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru

**Ffôn:** 0300 303 3444

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Beth ydy'r adroddiad yma ..... 4**

**Beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng 2024 a 2025 ..... 6**

Llesiant ..... 6

Yr iaith Gymraeg ..... 7

Cynnwys pawb ..... 8

Staff hapus ac iach ..... 9

Helpu pobl newydd i weithio yn y maes gofal cymdeithasol ..... 10

Gwasanaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ..... 11

Helpu staff i weithio ar-lein ..... 12

Addysg a hyfforddiant ..... 13

Rheoli ac arwain staff ..... 14

Staff sydd ei hangen nawr, ac yn y dyfodol ..... 15

**Beth sy'n digwydd nesaf ..... 16**

# Beth ydy'r adroddiad yma

**Gofal Cymdeithasol Cymru** ydyn ni.




Ein gwaith ydy gwneud yn siŵr bod staff gofal cymdeithasol yn:

- gwneud eu gwaith yn dda
- cael y gefnogaeth maen nhw ei angen.



Mae gofal cymdeithasol yn meddwl gwasanaethau sy'n helpu pobl gyda bywyd bob dydd. Mae hyn yn gallu bod yn help gartref, mewn canolfan ddydd neu gan weithiwr cymdeithasol.


Cynllun Cyflawni Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Yn 2024, fe wnaethon ni ysgrifennu cynllun o'r enw [Cynllun Cyflawni Gweithlu Gofal Cymdeithasol]. Mae'r cynllun yma yn esbonio'r pethau pwysig rydyn ni eisiau eu gwneud rhwng 2024 a 2027.



Fe wnaeth llawer o bobl weithio gyda'i gilydd i wneud y cynllun yma. Fe wnaeth pobl o wahanol rannau o ofal cymdeithasol rannu syniadau. Roedd hyn yn helpu pawb i deimlo'n rhan o'r penderfyniadau.




Mae'r adroddiad yma yn dweud beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 i weithio tuag at y cynllun.

# Beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng 2024 a 2025

## Llesiant



Daeth mwy na 570 o bobl i'n sesiynau llesiant.




Fe wnaethon ni roi mwy nag 8 mil o gardiau Gweithwyr Gofal newydd. Mae'r cerdyn yn dangos bod rhywun yn weithiwr gofal. Maen nhw'n gallu cael arian i ffwrdd oddi ar rai pethau.




Fe wnaeth mwy o staff ddefnyddio'r canllaw **Mae eich Llesiant yn Bwysig**.




Fe wnaethon ni ddweud wrth bobl am **Canopi**, gwasanaeth sy'n helpu staff gyda iechyd meddwl.

# Yr iaith Gymraeg

Fe wnaeth dros 800 o bobl ddechrau'r cwrs **Camau** i ddysgu Cymraeg.



Fe wnaeth dros 5 mil o bobl belidleisio yn y **Wobr Gofalu drwy'r Gymraeg**. Roedd hyn ddwywaith cymaint â'r llynedd. Dyma wobr i staff sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth ofalu am bobl.




Fe wnaethon ni gynllun i helpu cyflogwyr i feithrin sgiliau Cymraeg staff. Mae'r cynllun yma nawr ar agor i bob darparwr yng Nghymru.

## Cynnwys pawb



Fe wnaethon ni ariannu ymchwil ar gyfer rhaglen arweinyddiaeth newydd. Mae'r rhaglen yma yn helpu pobl o grwpiau sydd â llai o gyfleoedd.




Fe wnaethon ni gasglu'r flwyddyn gyntaf o ddata ar gyfer **Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu**. Mae hyn yn edrych ar, ac yn gwella sut mae staff o wahanol gefndiroedd ethnig yn cael eu trin.




Fe wnaethon ni wneud canllaw ar-lein i helpu cyflogwyr a gweithwyr sy'n newydd i Gymru.

## Staff hapus ac iach




Daeth mwy na 300 o bobl i'n **Wythnos Llesiant** gyntaf. Dywedodd pobl eu bod wedi dysgu pethau newydd a'u helpu.

Fe wnaethon ni gymryd camau i wneud gwaith a chyflog yn deg i bawb. Roedd hyn yn cynnwys:



- Fe wnaeth y **Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol** weithio ar gynllun cyflog a swyddi i weithwyr gofal.



- Fe wnaeth **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** adolygu telerau gwaith teg i weithwyr cymdeithasol.




- Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru, Cyngres yr Undebau Llafur ac Unsain** ganllaw i helpu cyflogwyr i ddeall rheolau gwaith teg.




Roedd gan ein harolwg **Dweud eich Dweud 2025** dros 5 mil o atebion. Dyma'r nifer uchaf erioed.

## Helpu pobl newydd i weithio yn y maes gofal cymdeithasol



Fe wnaeth ein hymgyrchoedd cenedlaethol am weithio mewn gofal cymdeithasol gyrraedd miliynau o bobl.



Fe wnaeth mwy na 800 o bobl gwblhau ein  cwrs Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol.



Fe wnaethon ni gynnal  digwyddiadau ar-lein Blas Ar newydd i esbonio gwahanol swyddi gofal.



Fe wnaethon ni ariannu prosiect ymchwil mawr i ddeall sut mae gwirfoddolwyr yn cefnogi gofal cymdeithasol.

## Gwasanaethau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd



Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** siarad â phobl ar draws Cymru i gynllunio ar gyfer sut mae staff yn helpu ac yn amddiffyn plant.



Fe wnaethon ni weithio gydag **Addysg a Gwella Iechyd Cymru** i gychwyn prosiect **y Coleg Adferiad Cenedlaethol**. Fe fydd hyn yn rhoi hyfforddiant i bobl gefnogi pobl gyda'u iechyd meddwl.



Fe wnaethon ni barhau i weithio gyda'n gilydd mewn byrddau gweithlu rhanbarthol a byrddau partneriaeth.

## Helpu staff i weithio ar-lein



Fe wnaethon ni offeryn newydd i helpu staff i weld beth maen nhw'n dda ynddo ar-lein. Fe wnaeth mwy nag 1 mil o bobl ddefnyddio'r offeryn.



Fe wnaethon ni rannu enghreifftiau go iawn o syniadau digidol sy'n cael eu defnyddio mewn lleoliadau gofal yng Nghymru.




Fe wnaethon ni gynnal  gweithdai **Hyrwyddwr Digidol** gyda **Chymunedau Digidol Cymru** i helpu staff i ddefnyddio offer ar-lein yn dda.

## Addysg a hyfforddiant



Fe wnaeth ein **Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru** barhau i helpu staff i ddysgu.




Fe wnaethon ni gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar sut mae **Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru** yn cael ei ddefnyddio i helpu pobl i ddysgu.



Fe wnaethon ni gynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer cyflogwyr a hyfforddwyr. Roedd y rhain yn eu helpu i ddeall pa sgiliau a chymwysterau mae staff eu hangen. Fe wnaethon ni hefyd eu helpu i ddysgu ffyrdd da o addysgu staff.



Fe wnaeth mwy na 3 mil o brentisiaid orffen cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn 900 yn fwy na'r llynedd. Mae prentis yn ddysgwr sy'n cael eu talu i weithio a hyfforddi ar yr un pryd.

## Rheoli ac arwain staff



Fe wnaeth mwy na 200 o bobl ymuno â'n hyfforddiant arweinyddiaeth tosturiol. Mae hyn yn meddwl bod yn arweinwyr caredig a gofalgar.



Fe wnaeth dros 1 mil o bobl ddefnyddio ein tudalennau gwe am arweinyddiaeth dosturiol.



Fe wnaethon ni gwblhau a phrofi ein **Rhaglen Darpar Reolwr Canol**. Mae'n helpu staff i ddysgu'r sgiliau maen nhw eu hangen i arwain timau. Mae ar agor nawr ar draws Cymru.





Fe wnaethon ni **ganllaw diwylliant cadarnhaol** sy'n esbonio beth sy'n helpu gweithle i deimlo'n dda a beth sydd yn gallu ei wneud yn waeth. Fe wnaethon ni ddefnyddio syniadau gan bobl ar draws gofal cymdeithasol i'w ysgrifennu.

## Staff sydd ei hangen nawr, ac yn y dyfodol



Fe wnaethon ni redeg rhaglen i helpu cynghorau i wella sgiliau cynllunio’r gweithlu.




Fe wnaethon ni ariannu astudiaeth i ddeall sut roedd cynghorau yn defnyddio data gofal cymdeithasol. Fe wnaethon ni rannu adroddiad am yr astudiaeth yma.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** lansio’r **Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth**. Fe wnaethon nhw hefyd lansio’r **Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth**.

# Beth sy’n digwydd nesaf




Dyma rai o’r pethau fyddwn ni’n gweithio arnyn nhw rhwng 2025 a 2026:



Fe fyddwn ni’n rhoi canllawiau am bwyllgorau diogelwch. Mae’r grwpiau yma yn gallu helpu i gadw staff yn ddiogel a chefnogi llesiant staff.



Fe fyddwn ni’n datblygu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn meddwl trin pawb yn deg a pharchu pobl sy’n wahanol.



Fe fyddwn ni’n gwneud fframwaith cadw. Dyma ganllaw i helpu sefydliadau i gadw staff am gyfnod hirach.



Fe fyddwn ni’n defnyddio beth rydyn ni wedi ei ddarganfod am sgiliau staff gydag offer ar-lein i wneud cynllun gweithredu.



Fe fyddwn ni’n ychwanegu at y rheolau wedi’u diweddaru ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol ar sut i wneud lle da i weithio trwy fod yn garedig ac yn gadarnhaol.